**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2006 Rhif (Cy. )

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau canlynol Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 ("Deddf 2005") ar 16 Mawrth 2006–

(a) adran 47 (ac, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r adran honno, Rhan 4 o Atodlen 5);

(b) adran 53;

(c) paragraff 4 o Atodlen 4; ac

(ch) darpariaethau eraill i'r graddau y maent yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") i wneud, rhoi neu ddyroddi is-ddeddfwriaeth.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dwyn i rym, ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau Tir a Halogwyd (Cymru) 2006 i rym, adran 104 o Ddeddf 2005 (i'r graddau nas daw i rym drwy'r Gorchymyn hwn ar 16 Mawrth 2006), a Rhan 10 o Atodlen 5 iddi.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn–

(a) yn diddymu adran 32 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac Atodlen 2 iddi, a fydd yn dileu'r gofyniad i awdurdodau lleol i gontractio allan eu swyddogaethau gwaredu gwastraff (adran 47 o Ddeddf 2005);

(b) yn gwneud rhai diddymiadau canlyniadol i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43) ("Deddf 1990") (Rhan 4 o Atodlen 5 i Ddeddf 2005);

(c) yn rhoi effaith i fân ddiwygiad i adran 60(1) o Ddeddf 1990 o ran ymyriad â safleoedd gwastraff a daliedyddion gwastraff (paragraff 4 o Atodlen 4 i Ddeddf 2005); ac

(ch) yn galluogi awdurdodau casglu gwastraff i ddefnyddio'u pwerau ymchwilio o dan adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i ymchwilio i ddigwyddiadau neu dramgwyddau o ran cyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (adran 53 o Ddeddf 2005).

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym nifer o ddarpariaethau Deddf 2005 i'r graddau y maent yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud, rhoi neu ddyroddi is-ddeddfwriaeth (neu i wneud darpariaeth drwy ddulliau o'r fath).

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adran 104 o Ddeddf 2005 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym yn rhinwedd erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn). Mae adran 104 yn diwygio'r trefniadau ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiadau adfer a gyflwynir o dan adran 78E o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, ac yn dwyn i rym y diddymiad cysylltiedig yn Rhan 10 o Atodlen 5 i Ddeddf 2005.

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud arbediad ynglŷn â chychwyn adran 47 o Ddeddf 2005.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L

# 2006 Rhif (Cy. )

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006

*Wedi'i wneud* *2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 108(1)(b), (2) a (5) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 ("Deddf 2005")(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 1990" yw Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**2**).

**Darpariaethau Deddf 2005 sy'n dod i rym ar 16 Mawrth 2006**

**2.** Mae darpariaethau canlynol Deddf 2005 yn dod i rym ar 16 Mawrth 2006—

(a) adran 47 (diddymu'r gofyniad i gontractio swyddogaethau gwaredu gwastraff allan);

(b) adran 53 (y pŵer i awdurdodau casglu gwastraff ddefnyddio eu pwerau ymchwilio o dan adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i ymchwilio i ddigwyddiadau neu dramgwyddau o ran cyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf 1990);

(**1**) 2005 p.16.

(**2**) 1990 p.43.

(c) yn Atodlen 4 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol), paragraff 4; ac

(ch) yn Rhan 4 (gwastraff) o Atodlen 5, y diddymiadau i Ddeddf 1990 ac eithrio'r diddymiad i adran 33 o'r Ddeddf honno.

**Darpariaethau Deddf 2005 sy'n dod i rym at ddibenion penodol ar 16 Mawrth 2006**

**3.** Daw cymaint o'r darpariaethau canlynol sy'n rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'n gosod dyletswydd arno i wneud neu ddarparu drwy reoliadau neu orchmynion, neu roi cyfarwyddiadau neu roi neu ddyroddi canllawiau, neu ddarparu o ran arfer unrhyw bŵer o'r fath neu gyflawni unrhyw ddyletswydd o'r fath, i rym ar 16 Mawrth 2006—

adran 2;

adran 6;

adran 8;

adran 10;

adran 13;

adran 17;

adran 19;

adran 20;

adran 24;

adran 28;

adran 30;

adrannau 37 a 38:

adrannau 45 a 46;

adran 48;

adran 52;

adrannau 55 i 60;

adran 67;

adrannau 73 i 75;

adran 82;

adrannau 96 i 98;

adran 101; ac

adrannau 103 a 104.

**Darpariaethau Deddf 2005 sy'n dod i rym ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau Tir a Halogwyd (Cymru) 2006 i rym**

**4.** Daw darpariaethau canlynol Deddf 2005 i rym pan ddaw Rheoliadau Tir a Halogwyd (Cymru) 2006 i rym—

(a) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 104 (diwygio trefniadau ar gyfer apelau yn

erbyn hysbysiadau adfer a gyflwynir o dan adran 78E o Ddeddf 1990); a

(b) Rhan 10 o Atodlen 5 (diddymiadau).

**Arbedion**

**5.**—(1) Serch eu diddymu gan adran 47 o Ddeddf 2005 a Rhan 4 o Atodlen 5 iddi, mae adran 32 (fel y'i darllenir gydag adran 30(5)) o Ddeddf 1990 a Rhan 2 o Atodlen 2 iddi yn parhau i gael effaith at ddibenion rheoleiddio—

(a) gweithgareddau cwmni a ffurfiwyd gan awdurdod gwaredu gwastraff neu y bu gan awdurdod gwaredu gwastraff ran yn ei ffurfio at ddibenion casglu gwastraff, neu waredu, cadw neu drin gwastraff, pan fydd y cwmni'n parhau o dan reolaeth yr awdurdod gwaredu gwastraff ar 16 Mawrth 2006; a

(b) swyddogaethau awdurdod gwaredu gwastraff mewn cysylltiad â chwmni o'r fath cyhyd ag y pery'r cwmni o dan reolaeth yr awdurdod.

(2) Ym mharagraff (1), mae i "awdurdod gwaredu gwastraff" yr ystyr a roddir i "waste disposal authority" yn adran 30(2) o Ddeddf 1990 ac mae i "rheolaeth" yr ystyr a roddir i "control" yn adran 32(11) o'r Ddeddf honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p.38.